LANEq337

# Rheoli a pharatoi a gofalu am gerbydau sy’n cael eu tynnu gan geffylau neu offer amaethyddol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rheoli'r gwaith o baratoi a gofalu am gerbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau neu offer amaethyddol i'w defnyddio, yn ogystal â gallu adnabod ystod o gerbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau/offer a'u rhannau.

Mae'n cynnwys bod yn gyfrifol am lanhau cerbydau neu offer i'r safon briodol ar gyfer y defnydd y'u bwriadwyd, gan gynnal gwiriadau fel mater o drefn am draul neu niwed ac adnewyddu eitemau anaddas cyn eu defnyddio.

Mae'n cynnwys gallu paratoi a llwytho cerbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau neu offer amaethyddol i'w cludo i ddigwyddiadau, a'u glanhau, eu cynnal a'u storio rhwng defnydd.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. dewis cerbydau/offer sy'n briodol ar gyfer ystod o ddefnydd a fwriedir
3. cynnal gwiriadau fel mater o drefn am draul neu niwed, ac adnewyddu eitemau anaddas neu drefnu iddynt gael eu hatgyweirio
4. rheoli a pharatoi a gofalu am gerbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau neu offer amaethyddol trwy sicrhau eu bod yn cael eu glanhau a'u paratoi i'r safon sy'n briodol ar gyfer y defnydd a fwriedir
5. paratoi cerbydau/offer i'w cludo i ddigwyddiadau
6. sicrhau bod cerbydau/offer yn cael eu glanhau, eu cynnal a'u cadw a'u storio ar ôl eu defnyddio
7. sicrhau bod gwastraff yn cael ei waredu'n ddiogel ac yn gywir
8. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn rheoli'r gwaith o baratoi cerbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau neu offer amaethyddol ar gyfer eu defnyddio
3. ystod o gerbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau/offer a'u rhannau, eu defnydd a'u swyddogaethau
4. sut i asesu am draul neu niwed
5. y gweithdrefnau ar gyfer adnewyddu eitemau anaddas neu drefnu eu hatgyweirio
6. y safonau glendid a pharatoi sy'n ofynnol ar gyfer ystod o ddefnydd
7. sut i baratoi cerbydau/offer ar gyfer eu cludo
8. y gofynion ar gyfer cynnal a chadw cerbydau/offer
9. sut y dylid gwaredu mathau gwahanol o wastraff
10. y dulliau diogelu o godi a thrin
11. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut y gellir rheoli'r rhain
12. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

LANEq337

Rheoli a pharatoi a gofalu am gerbydau sy’n cael eu tynnu gan geffylau neu offer amaethyddol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq337 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; gyrru; amaethyddiaeth |